# Cefnogi Pobl Gwent
# Cyfarfod y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol (Chwarterol)

9:30 am – 13:00 pm, Dydd Iau 13 Hydref 2016

Ystafell Bwrdd y Felin, Tŷ'r Efail, Lower Mill Field, Pont-y-pŵl, NP4 0XJ

**Yn bresennol (Aelodau'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol):**

Chris Edmunds, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Cydlynydd y Rhaglen 'In One Place'
Elke Winton, BSC Torfaen, Rheolwraig y Grŵp Tai (Cadeirydd)
Julia Osmond, Iechyd y Cyhoedd, Prif Ymarferydd Iechyd Cyhoeddus
Hugh Irwin Cynrychiolydd Gofal Iechyd Parhaus, Cymdeithas Tai Unedig Cymru
Neil Taylor, Pennaeth Cynllunio Perfformiad a Phartneriaethau, SCHaTh Gwent
Nigel Stannard, Cyngor Dinas Casnewydd, Rheolwr Cefnogi Pobl
Paul Cockeram, Cynghorydd, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol i Oedolion a Thai, Cynrychiolydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
Rachel Allen, SCHaTh Gwent
Richard Sheahan, Linc Cymru, Cynrychiolydd Gofal Iechyd Parhaus
Sam Lewis, Llamau, Pennaeth Gwasanaethau Cymorth y Dwyrain, Cynrychiolydd Darparwr

**Swyddogion Cefnogi yn bresennol:**

Angela Lee, Cydlynydd Datblygiad Rhanbarthol CP Gwent (Cofnodion)
Donna Lemin, Llywodraeth Cymru, Llywodraethu CP a Rheolwraig Achredu Data
Malcolm Topping, CP Caerffili, Rheolwr Cefnogi Pobl
Michelle Church, CP Blaenau Gwent, Rheolwraig Gefnogi Pobl
Rachael Lewis, Rheolwraig Gefnogi Pobl, Torfaen

**Cyflwyniad:**

Helen Jones, Swyddog Arweiniol CP, y Fro
Sarah Wills, Gofal
Deena Williams, Cymdeithas Tai Newydd.

**Ymddiheuriadau:**

Alyson Hoskins, CBS Blaenau Gwent, Rheolwraig Wasanaeth
Alicja Zalesinska, Tai Pawb, Cyfarwyddwraig
Chris Robinson, Cyngor Sir Fynwy, Comisiynydd Arweiniol
Colin Jones, Reach, Rheolwr Tîm, Cynrychiolydd Darparwr Cymorth
Rhian Stone, Cyfarwyddwraig Gofal a Chymorth, Cynrychiolydd Darparwr (Is-gadeirydd)
Simon Rose, Casnewydd, Rheolwr Anghenion Tai
Trudy Griffin, CP Sir Fynwy, Uwch Swyddog Sicrwydd Ansawdd Comisiynu
Viv Daye, CBS Caerffili, Rheolwraig Wasanaeth

| | Eitem/Trafodaeth | Gweithred |
|---|---|---|
| **1.** | **Croeso a chyflwyniadau**<br>Croesawodd EW bawb i gyfarfod Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gwent a chyflwynodd pawb eu hunain.<br><br>**Ymddiheuriadau**<br>Derbyniwyd ymddiheuriadau fel y nodwyd uchod<br><br>**Datganiadau o Fuddiannau**<br>Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau sy'n gwrthdaro. | |
| **2.** | **Cyflwyniad: Tai Cefnogaeth Iechyd y Meddwl ar Wasgar. Bro Morgannwg:**<br><br>*Helen Jones, Swyddog Arweiniol CP, Y Fro; Sarah Wills, Gofal; Deena Williams, Cymdeithas Tai Newydd.*<br><br>Rhoddwyd cyflwyniad i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol ar y prosiect tai ar wasgar a sefydlwyd yn y Fro. Sefydlwyd y prosiect yn wreiddiol mewn ymateb i argymhellion gan Lywodraeth Cymru a nododd nad oedd CP yn y Fro yn gweithio yn ddigon agos gyda'r maes iechyd; sefydlwyd grŵp strategol a gweithredol i oruchwylio'r prosiect. Ar yr un pryd roedd cynllun iechyd yn cau a fyddai'n arwain at ddiffyg tai gyda chymorth lefel uchel ar gyfer pobl â phroblemau iechyd y meddwl.<br><br>Mae'r cynllun bellach wedi bod yn rhedeg am ddwy flynedd ac wedi cael llwyddiant mawr i'r cleientiaid sydd wedi derbyn cymorth.<br><br>Roedd cwestiynau a thrafodaethau oddi wrth aelodau'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol yn cynnwys y pwyntiau canlynol:<br><br>• Cytundeb gan Fudd-daliadau Tai i ganiatáu cyfradd 2 ystafell wely ac i ddiystyru gofynion treth ystafell wely.<br>• Pa lefelau o Fudd-daliadau Tai/Budd-daliadau Tai cyfradd uwch? Budd-daliadau Tai cyfradd uwch Gofal yn hawlio tâl rheoli tai a rhent craidd. Unwaith y bydd cymorth yn dod i ben mae'r denantiaeth yn dod yn sicr ac mae rhent yn dychwelyd i'r rhent arferol ac maent yn dod yn denant anghenion cyffredinol, yna bydd Cymdeithas Tai Newydd yn chwilio am eiddo arall ac yna byddant yn cael eu cyfeirio at gymorth generig fel y bo'r angen<br>• Mae'r Fro ar hyn o bryd yn recriwtio ar gyfer Swyddog Prosiect Ystafelloedd i Chi gan edrych yn benodol ar faterion i'r rhai dan 35 oherwydd cyflwyno'r diwygiadau lles.<br>• Oherwydd natur y materion mae'r grŵp cleientiaid hwn yn profi, mae'n rhaid i'r prosiect fod yn ofalus gyda'r defnydd o lety a rennir, byddai angen iddynt wneud yn siŵr bod y cleientiaid iawn mewn parau pe bai hyn yn digwydd.<br>• Mae timau o bob asiantaeth yn gweithio gyda'i gilydd ac mae yna opsiwn i rannu desgiau; ar hyn o bryd maent yn gweithio tuag at gael cronfa ddata i'w rhannu,<br>• Mae arweinwyr clinigol yn eistedd ar grŵp llywio, sy'n cwrdd yn rheolaidd. | |

| | | |
|---|---|---|
| | • Dyletswyddau Adran 117: Mae Gofal Cymdeithasol wrth y bwrdd – mae pob asiantaeth a ddylai fod yn gysylltiedig yn rhan o hyn ar y cychwyn; nid oes arian gofal cymdeithasol yn mynd i'r prosiect ar hyn o bryd; ond wedi trafod ychwanegu hyn os oes angen pecyn gofal.<br>• Nid yw'r Tîm Iris Gwent wedi'i strwythuro yn yr un modd â thîmau Iechyd yn y Fro<br>• Dadansoddiad cost a budd, mae'r prosiect yn ystyried defnyddio model Gwent; yn cydnabod y byddai angen ystyried buddiannau costau iechyd a heddlu<br><br>**Camau Gweithredu:**<br><br>**Cylchredeg y cyflwyniad cynllun tai ar wasgar gyda'r cofnodion**<br><br>Diolchodd EW i HJ, SW a DW am y cyflwyniad. Gadawodd DW y cyfarfod. Arhosodd HJ a SW er mwyn arsylwi'r cyfarfod. | A |
| **3.** | **Materion Cadw Tŷ**<br><br>**Cofnodion / Camau Gweithredu sy'n deillio o'r cyfarfod blaenorol (14/07/2016)**<br>Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol. Mae unrhyw gamau heb eu gweithredu o'r cofnodion blaenorol naill ai wedi'u cwblhau, ar yr agenda neu'n aros i gael eu cymryd ymlaen.<br><br>**Diweddariad o'r Camau Gweithredu o gofnodion 14/07/16:**<br>**C3:** Cylchredwyd papur gan EW a darparodd ddiweddariad PCRh o ran cyfarfod gadarnhaol diweddar gyda'r Cynghorydd Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.<br><br>Trafododd y Pwyllgor i osod y swyddi Ymgynghorwyr Annibynnol Trais yn y Cartref (sef yr IDVAs) ar sail rhanbarthol, gan fod arian y Swyddfa Gartref yn mynd i gael ei dynnu'n ôl ar ddiwedd y flwyddyn sy'n gadael diffyg o £50,000 ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod Jane Rose, Rheolwraig Ranbarthol IDVA yn mynychu'r cyfarfod nesaf er mwyn trafod y swyddi IDVA a'r potensial ar gyfer cyfraniad CP tuag at ariannu'r swyddi hynny.<br><br>Q10: Rhoddodd NS drosolwg i'r cyfarfod o gronfa ddata KEMP sy'n mapio gorgyffwrdd. Mapio CP, CF a FF i chwilio am ddyblygu. Awgrymwyd bod hwn yn aros fel cam weithred ac i ddiweddariad pellach cael ei ddarparu i'r cyfarfod nesaf.<br><br>**Camau Gweithredu:**<br><br>*** Dosbarthu'r papur cyfarfod VAWDASV gyda'r cofnodion**<br><br>*** Darparu'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol gyda diweddariad pellach o fapio'r gwaith ymyriadau sy'n digwydd yng Nghasnewydd.**<br><br>**Camau Gweithredu heb eu Cwblhau:**<br><br>*** Nid yw camau gweithredu D i H o'r cyfarfod blaenorol wedi eu cwblhau** | <br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>B<br><br>C<br><br><br><br><br>D i H |

| | | |
|---|---|---|
| | **Diweddariadau Aelodaeth**<br><br>**Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol:** Croesawodd EW PC i'r cyfarfod; yn bresennol fel cynrychiolydd cyfetholedig i gynrychioli'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn y cyfarfod Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol.<br>Croesawyd Rheolwraig CP Torfaen Rachael Lewis yn ôl i'r cyfarfod ar ôl cyfnod o absenoldeb mamolaeth a chofnodwyd yn ffurfiol diolchiadau ar gyfer y gwaith a wnaed gan Beth Covill wrth ymgymryd â'r rôl Rheolwraig CP.<br><br>**Ffurfioli'r cysylltiad â Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus (BGC):** Trafodwyd hyn mewn sesiwn datblygu BCCCP diweddar a gynhaliwyd gyda Chadeiryddion Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol, is-gadeiryddion ac RDCau; dywedodd Ceri Breeze ei fod yn gallu helpu ffurfioli cysylltiadau os bydd angen drwy gyfarfodydd a fynychwyd ganddo gyda Chadeiryddion y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Trafododd y Pwyllgor y cais ac nid oeddynt yn glir sut y gallai hyn ddigwydd yn ymarferol. Ceir pump BGC strategol lefel uchel yng Ngwent, un ar gyfer pob awdurdod lleol; gyda swyddogion arweiniol CP, o'r blaen o dan y strwythur Byrddau Gwasanaeth Lleol yn eistedd ar y grwpiau gweithredol ac yn bwydo i mewn i'r Byrddau Gwasanaethau Lleol drwy'r rheiny. Rhagwelwyd y byddai strwythur tebyg, a theimlwyd y byddai'n anodd cael cynrychiolwyr o'r PCRh fel aelodau o'r 5 BGC.<br><br>Roedd y Pwyllgor yn ymwybodol o ddatblygiad y BGCau hyd yma, gan fod llawer dal wrthi'n cael eu sefydlu. Bydd angen i'r PCRh aros nes bod cynlluniau gweithredu cadarn yn bodoli. Awgrymwyd bod y PCRh yn gwneud cyswllt gyda'r BGCau er mwyn rhoi gwybod iddynt am waith y PCRh a Chefnogi Pobl<br><br>**Camau Gweithredu: Awdurdodau lleol i ddarparu trosolwg o'u BGC a lle mae CP yn eistedd o fewn y ffrydiau gwaith/grwpiau fel y gellir bwydo hyn yn ôl i Lywodraeth Cymru.**<br><br>**Etholiadau Darparwyr:** ar gyfer y swyddi Cynrychiolwyr Darparwyr Cymorth PCRh; maent ar y gweill ac mae'n debygol y gwneir cyhoeddiad cyn diwedd mis Tachwedd. | I |
| **4.** | **Sefyllfa Ariannol yn erbyn y gyllideb**<br><br>➢ Diweddariad Cyllideb 2016-2017<br>➢ Cyllideb Llywodraeth Cymru 2017-2018<br>➢ Alldro rhanbarthol: ddim mwyach yn ofyniad ar gyfer amodau a thelerau'r grant rhaglen Cefnogi Pobl<br><br>Cadarnhaodd yr ALlau bod eu cyllidebau 2016-2017 wedi clustnodi'n llwyr ac nid oeddent yn rhagweld unrhyw danwariant; mae'r arbedion a gyflawnwyd y llynedd wedi galluogi datblygiad rhai prosiectau peilot. Mae ansicrwydd parhaus o ran ariannu sy'n ei gwneud yn anodd i ALlau i gynllunio'r dyfodol.<br><br>Roedd cyllideb 2017-2018 ar fin cael ei osod ar Hydref 18; y disgwyl oedd parhau i gynllunio ar gyfer toriadau posibl o hyd at 20% gan bob awdurdod lleol yng Ngwent. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cytunwyd oherwydd nad oedd angen mwyach i gasglu'r alldro rhanbarthol y byddai pob awdurdod lleol yn cyflwyno eu halldro lleol i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol. Cytunwyd y dylid darparu rhyw fath o drosolwg/cyd-destun gyda'r alldro.<br><br>**Cam Gweithredu: Arweinwyr Cefnogi Pobl i gytuno ar fformat y trosolwg alldro i'w gyflwyno i'r PCRh** | J |
| **5.** | **Diweddariad Llywodraeth Cymru**<br><br>Cylchredwyd papur diweddariad Llywodraeth Cymru Medi 2016, a nodwyd hynny yn y cofnodion.<br><br>Darparwyd trosolwg o weithdai cyn-filwr Llywodraeth Cymru, yn ymgynghori ar y Llwybr Tai Cenedlaethol ar gyfer cyn-aelodau'r lluoedd arfog sydd wedi digwydd yn ddiweddar. Mae'r Llwybr terfynol i fod cael ei lansio ar 11[eg] Tachwedd 2016. | |
| **6.** | **Diweddariadau ALl**<br><br>Blaenau Gwent, Caerffili, Casnewydd a Thorfaen: *papurau diweddaru wedi eu dosbarthu, i'w nodi yn y cofnodion*<br><br>Sir Fynwy: *Derbyniwyd ymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod felly nid oedd unrhyw un ar gael i ddarparu diweddariad ar lafar*<br><br>➢ Darparu Cyngor ar Ddyled: Cyflwyniad ar Ddiwrnod Datblygu'r BCCCP dydd gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol<br><br>Cytunwyd bod angen cysondeb ledled Cymru ac awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru ystyried cynnwys gofyniad o fewn telerau ac amodau'r grant. Byddai hyn yn codi nifer o faterion oherwydd cymaint o ofynion cyfreithiol y gallai bod angen eu rhestru o bosibl. Cafwyd trafodaeth bellach yn y cyfarfod ynghylch perthnasedd a phwysigrwydd y gofyniad cyfreithiol penodol hwn a phwysigrwydd hwn o ran cael ei restru ar wahân o fewn contractau.<br><br>Ar draws sefydliadau Gwent, sydd wedi mynd drwy'r broses gofrestru gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol, maent yn nodi eu bod wedi derbyn cyngor ac arweiniad croes gan weithwyr achos yr AYA. Adroddir bod sefyllfa amrywiol yn dod i'r amlwg wrth i rai sefydliadau cael gwybod bod angen iddynt gofrestru ac eraill yn cael gwybod nad oes angen iddynt gofrestru. Cydnabyddir bod y tasgau a wneir gan weithwyr cymorth yn debygol o fod yn eithaf tebyg; mae rhai sefydliadau wedi gwthio iddynt gael eu cofrestru ar ôl cael gwybod gan yr AYA i ddechrau nad oedd angen iddynt gofrestru.<br><br>• Cytunodd aelodau'r PCRh fod hyn yn codi pryderon difrifol i'r comisiynwyr, a disgwyliadau'r darparwyr, a'r darparwyr sy'n ceisio cofrestru | |

| | | |
|---|---|---|
| | • Cytunodd yr Aelodau bod angen safbwynt Cymru gyfan ar y mater hwn er mwyn sicrhau cysondeb<br>• Cytunwyd y byddai angen ystyried y gofynion a godwyd o fewn y cyflwyniad BCCCP gyda'u timau cyfreithiol a diweddaru eu contractau yn unol â gofynion timau cyfreithiol yr awdurdodau lleol<br><br>**Cam Gweithredu: Llywodraeth Cymru i ystyried y pwyntiau a drafodwyd o ran cofrestru gyda'r AYA a rhoi adborth yn y cyfarfod nesaf.**<br><br>**Cam Gweithredu: Awdurdodau lleol i godi hyn gyda'u timau cyfreithiol a darparu adborth i'r PCRh**<br><br>➢ Cynnydd yn erbyn argymhellion yr adolygiad o wasanaethau LD<br><br>Dosbarthwyd adroddiad diweddaru o Gasnewydd i'r PCRh gyda'r agenda a phapurau.<br><br>Dosbarthwyd datganiad o Dorfaen gyda'r papurau:<br><br>• Nodwyd yn Strategaeth Cefnogi Pobl Torfaen 2012-17 y grŵp cleientiaid hwn fel blaenoriaeth leol ar gyfer ailfodelu/datblygu gwasanaethau. Lle y bo'n briodol, mae gwasanaethau wedi'u hadolygu a'u hailfodelu er mwyn cwrdd ag anghenion cymorth tai pobl sydd ag anableddau dysgu yn Nhorfaen. Roedd y rhan fwyaf o'r gwasanaethau a gyllidwyd gan CP ar gyfer y grŵp cleientiaid hwn wedi symud i ddarpariaeth cymorth beripatetig yn ôl yr angen, ac eithrio un cynllun llety sy'n cael ei reoli ar y cyd drwy gontract gyda Gofal Cymdeithasol. Mae rhaglen o adolygiadau a monitro gwasanaethau'n parhau er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn strategol berthnasol ac yn parhau i ddarparu safon uchel o gymorth yn ymwneud â thai.<br><br>Mae gwaith yn mynd rhagddo i adolygu cynlluniau yng Nghaerffili ac mae arbedion yn cael eu cyflawni drwy'r broses hwn. Mae colled wedi bod o ran arian atodol gwasanaethau cymdeithasol drwy'r broses hon, er mwyn talu'r costau hynny nad sy'n gymwys ar gyfer cyllid CP mwyach.<br><br>Ym Mlaenau Gwent datgomisiynwyd 2 gynllun tai â chymorth. Mae gwasanaeth newydd ar gyfer pobl sy'n agored i niwed yn cael ei dendro ar hyn o bryd.<br><br>Cytunwyd bod y rhaglen 'In One Place' yn caniatáu ar gyfer rhywfaint o'r gwaith hwn i ddigwydd. Sicrhau macsimeiddio annibyniaeth a darparu pobl â'r cyfleoedd i gynnal eu tenantiaeth.<br><br>**Cam gweithredu: darparu'r adroddiad LD nesaf i'r cyfarfod PCRh ym mis Ebrill** | K<br><br>L<br><br>M |
| **7.** | **Diweddariad Darparwr:** Rhoddwyd cyflwyniad yng nghyfarfod olaf yr RPF ym mis Gorffennaf ar y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a'r hyfforddiant sydd ar gael i ddarparwyr drwy adrannau datblygu'r gweithlu / hyfforddiant yr ALlau. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Eitemau eraill a drafodwyd yn y cyfarfod oedd cofrestru AYA, etholiadau darparwr a gofyniad i gofrestru gyda Rhentu Doeth Cymru ar gyfer dyletswyddau rheoli tai a thenantiaethau a reolir ar ran y landlord. Mae darparwyr wedi cael cyngor croes oddi wrth sefydliad Rhentu Doeth Cymru.<br><br>**Diweddariad landlord:** Capio lwfans LHA / tai â chymorth, ni fydd y cap yn gymwys tan 2019; ac mae'n debygol o gael eu datganoli i Lywodraeth Cymru i oruchwylio, ceir pryder ar draws y sector ynglŷn â sut y bydd hyn yn gweithio. Mae prisio maint y gronfa bydd angen ei ddatganoli hefyd wedi bod yn anodd. Mae'r sector hefyd yn pryderu y bydd y mater hwn yn effeithio ar allu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i ddatblygu cynlluniau tai â chymorth newydd.<br><br>Newyddion diweddaraf rhwydwaith EROSH (RShe): yn y cyfarfod diwethaf cafwyd trafodaeth ynglŷn â chomisiynu ac ail-dendro gwasanaethau pobl hŷn, codwyd pryder o ran y cynnydd lle nad yw landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn tendro ar gyfer gwasanaethau mwy.<br><br>Mae ôl-ddyddio hawliadau Budd-daliadau Tai yn 6 mis ar hyn o bryd, bydd hyn yn gostwng cyn bo hir yn unol â rheolau budd-dal i 4 wythnos o ôl-ddyddio, a chytunwyd bod hyn yn debygol o fod yn broblem ar gyfer hostelau a phrosiectau tai â chefnogaeth.<br><br>O ran y rheol dan 35 oed, bydd y cap yn gymwys i dai â chymorth ac o Ebrill bydd terfyn o un gwely cyfradd LHA i'w hawlio. Mae hawliadau awtomatig i fudd-daliadau ar gyfer pobl 16-21 oed yn mynd. Yn lleol gwneir newidiadau i feini prawf y gofrestr tai er mwyn adlewyrchu'r newidiadau sy'n cael eu gweithredu<br><br>Cafwyd cyflwyniad yn ddiweddar i'r Rhwydwaith Digartrefedd gan Karl Thomas, yn amlinellu datganoliad y cyllid ar gyfer rheoli llety dros dro i Lywodraeth Cymru o fis Ebrill 2017.<br><br>Trafododd y Pwyllgor cyflwyniadau'r dyfodol i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol a chytunwyd y byddai'r canlynol yn darparu diweddariadau defnyddiol; Cyflwyniad ynghylch Rhentu Doeth Cymru a throsolwg y diwygiadau Llesiant gan Karl Thomas.<br><br>**Cam gweithredu: cylchredeg y cyflwyniad a ddarparwyd i'r Rhwydwaith Digartrefedd gan Karl Thomas**<br><br>**Camau Gweithredu: Cadeirydd ac RDC i gwrdd i ystyried cyflwyniadau ar gyfer cyfarfodydd y PCRh y flwyddyn nesaf, gan gynnwys awgrymiadau i wahodd Rhentu Doeth Cymru a Karl Thomas i ddarparu trosolwg o'r diwygiadau Lles sy'n berthnasol i Gymru** | N<br><br>O |
| **8.** | **Adroddiad cynnydd RDC**<br><br>Cydnabuwyd adroddiad cynnydd yr RDC gan aelodau a nodwyd hynny yn y cofnodion. Rhoddodd AL drosolwg i'r pwyllgor o'r adroddiad RDC, sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar yr eitemau canlynol:<br><br>Adrodd ar gynlluniau gwaith is-grwpiau'r PCRh: | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ➢ Is Grŵp Defnyddwyr y Gwasanaeth: mae'r wefan wedi'i diweddaru gyda newidiadau a awgrymwyd yn y digwyddiadau sioe deithiol i ddefnyddwyr gwasanaeth, bydd arddangosiad byw yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar ddiwedd y cyfarfod busnes<br>➢ Is-grŵp Pobl Hŷn:<br>o yn dilyn ymholiad oddi wrth yr is-grŵp o ran "dylai cyllid ar gyfer cymorth fod yn seiliedig ar angen, nid deiliadaeth neu oedran", eglurwyd hyn gan Lywodraeth Cymru a wnaeth gadarnhau y dylid rhoi cymorth i bobl sydd ei angen nid yn unig oherwydd eich oed neu ddeiliadaeth.<br>o Bu'r pwyllgor yn trafod rhai materion presennol o ran tai gwarchod a oedd yn cynnwys ar gyfer pwy ydyw? Mae pobl yn defnyddio'r math hwn o lety sydd efallai ag achosion bod agored i niwed neu anabledd ond efallai y byddant yn dal i weithio, rhai llety nad yw'n addas nawr at y diben, mae pobl iau yn defnyddio'r math hwn o lety<br>o Trafodwyd yn fyr cyllidebau cyfun cartrefi gofal<br>o Gwasanaethau cyfeillio ac allent gael mynediad at gyllid CP, cytunwyd yn gyffredinol bod y math hwn o wasanaeth yn annhebygol o gyrraedd y meini prawf ar gyfer cyllid CP<br>o Cytunwyd yn y cyfarfod yr argymhelliad gan yr is-grwp *"erbyn diwedd 2016 bydd holl wasanaethau yn cael eu darparu ar sail angen ac yn ddeiliadaeth niwtral"*.<br>o Gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i "Warchod ein Henoed Gyda'n Gilydd”<br>o Rôl swydd rhagnodydd cymdeithasol yn cael ei ariannu yn CBS Torfaen yn cydweithio'n agos â phractisau meddygon teulu<br>o Cylch gwaith yr is-grŵp: cytunwyd y dylid ailystyried gwaith yr is-grŵp gan y PCRh unwaith y bydd y safle we DEWIS yn weithredol.<br>➢ Is-grŵp Pobl ifanc: dywedwyd wrth y Pwyllgor bod yr is-grŵp pobl ifanc wedi cwrdd, a chytuno y byddai'n cynnal ymarfer mapio o wasanaethau CP a ariennir i edrych ar nifer y Profiadau Gwrthwynebus Plentyndod a brofir gan ddefnyddwyr gwasanaeth a nifer y rhai sy'n gadael gofal ar draws gwasanaethau: roedd yr ymarfer yn mynd rhagddo ar hyn o bryd a chaiff y canlyniadau eu rhannu gyda’r PCRh unwaith iddynt gael eu coladu. Roedd y grŵp hefyd yn ystyried adroddiad Anna Whalen a’r llwybr digartrefedd i bobl ifanc. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd yng Nghasnewydd a Chaerffili y mae angen ei ystyried<br>➢ Adolygiad Gwasanaethau Iechyd y Meddwl: mae adolygiad penddesg o wasanaethau ar gyfer y grŵp cleientiaid hwn ar y gweill ar hyn o bryd; mae'r adroddiad drafft i gael ei ystyried yng nghyfarfod nesaf yr arweinwyr CP<br><br>**Camau Gweithredu: Yr ALlau i adrodd i'r PCRh ar sail bob chwech mis o ran yr argymhelliad *"erbyn diwedd 2016 bydd holl wasanaethau yn cael eu darparu ar sail angen ac yn ddeiliadaeth niwtral".*** | P |

| | | |
|---|---|---|
| | **Camau Gweithredu: Gwaith i'r is-grŵp pobl hŷn i'w hystyried gan y PCRh yn ystod chwarter 4 2016-2017.**<br><br>**Cam gweithredu: trosolwg o'r prosiect "Gwarchod ein Henoed Gyda'n Gilydd" i gael ei gylchredeg i'r pwyllgor**<br><br>**Cam gweithredu: trosolwg o'r swydd Rhagnodydd Cymdeithasol i gael ei ddosbarthu i'r pwyllgor**<br><br>**Cam gweithredu: y wybodaeth ddiweddaraf o ran yr ymarfer mapio Profiadau Gwrthwynebus Plentyndod i'w darparu i gyfarfod nesaf y PCRh** | Q<br><br>R<br><br>S<br><br>T |
| **9.** | **Unrhyw Fusnes Arall**<br><br>Costau cyfieithu: nid yw'r rhain yn gymwys i'w dalu gan y grant SPP. Bydd angen cyfieithu'r Cynllun Strategol Rhanbarthol oherwydd bydd angen i'r ddogfen hon gael ei chyhoeddi; cytunwyd y bydd angen trafod hyn gan yr Arweinwyr Cefnogi Pobl / Awdurdodau Lleol.<br><br>**Cam gweithredu: costau cyfieithu i fod ar yr agenda ar gyfer cyfarfod nesaf yr Arweinwyr Cefnogi Pobl** | U |
| **10.** | **Gwefan Ymgysylltu â Defnyddwyr Gwasanaeth: arddangosiad byw**<br><br>Cyflwynwyd y wefan defnyddiwr gwasanaeth diwygiedig i'r Pwyllgor. Cafwyd adborth cadarnhaol gan yr Aelodau ynghylch y safle we a diolchwyd i bawb oedd yn rhan o hyn. | |
| | Dyddiad/amser y cyfarfod nesaf: 25ain Ionawr 2016 09:30 am<br><br>**<u>Ystafell Bwyllgor 2/3, y Ganolfan Ddinesig, Heol Glantorfaen, Pont-y-pŵl, NP4 6YB</u>** | |

# PCRh Gwent: Camau Gweithredu'r Cyfarfod

9:30 am – 13:00 pm, Dydd Iau 13 Hydref 2016

| Cam Gweithredu | Rhif yr Eitem Agenda | Cam Gweithredu | I'w gwblhau gan |
|---|---|---|---|
| A | 2 | **Cylchredeg y cyflwyniad cynllun tai ar wasgar gyda'r cofnodion** | AL |
| B | 3 | **Dosbarthu'r papur cyfarfod VAWDASV gyda'r cofnodion** | AL |
| C | 3 | **Darparu'r PCRh gyda diweddariad pellach o fapio'r gwaith ymyriadau sy'n digwydd yng Nghasnewydd.** | NS |
| D | 3 | **Cylchredeg gwybodaeth am y Cynllun Llwybrau Gwent ar gyfer troseddwyr pan fydd ar gael** | BC |
| E | 3 | **Cadarnhau os yw'n gallu dod yn gynrychiolydd yr APB /PCRh** | AH |

| | | | |
|---|---|---|---|
| F | 3 | **Danfon ymlaen cylch gorchwyl y PCRh i gydweithwyr y RhGC** | AH |
| G | 3 | **Cadarnhau'r swydd ddirprwy gydag WM** | DC |
| H | 3 | **Cysylltu â chydweithwyr GTI i drafod aelodaeth gyfetholedig i'r PCRh** | AH/RSto |
| I | 3 | **Awdurdodau lleol i ddarparu trosolwg o'u BGC a lle mae CP yn eistedd o fewn y ffrydiau gwaith/grwpiau fel y gellir bwydo hyn yn ôl i Lywodraeth Cymru.** | Arweinwyr CP |
| J | 4 | **Arweinwyr CP i gytuno ar fformat ar gyfer y trosolwg alldro i'w gyflwyno i'r PCRh** | Arweinwyr CP |
| K | 6 | **Llywodraeth Cymru i ystyried y pwyntiau a drafodwyd o ran cofrestru gyda'r AYA a rhoi adborth yn y cyfarfod nesaf.** | DL |
| L | 6 | **Awdurdodau lleol i godi hyn gyda'u timau cyfreithiol a darparu adborth i'r PCRh** | Arweinwyr CP |
| M | 6 | **Adroddiad diweddaru LD nesaf i gael ei ddarparu i'r cyfarfod PCRh ym mis Ebrill** | Arweinwyr CP |
| N | 7 | **Cylchredeg y cyflwyniad a darparwyd i'r Rhwydwaith Digartrefedd gan Karl Thomas** | AL |
| O | 7 | **Cadeirydd ac RDC i gwrdd i ystyried cyflwyniadau ar gyfer cyfarfodydd y PCRh y flwyddyn nesaf, gan gynnwys awgrymiadau i wahodd Rhentu Doeth Cymru a Karl Thomas i ddarparu trosolwg o'r diwygiadau Lles sy'n berthnasol i Gymru** | EW/AL |
| P | 8 | **Yr ALlau i adrodd i'r PCRh ar sail bob chwech mis o ran yr argymhelliad *"erbyn diwedd 2016 bydd holl wasanaethau yn cael eu darparu ar sail angen ac yn ddeiliadaeth niwtral".*** | Arweinwyr CP |
| Q | 8 | **Gwaith i'r is-grŵp pobl hŷn i'w hystyried gan y PCRh yn ystod chwarter 4 2016-2017.** | PCRh |
| R | 8 | **Trosolwg o'r prosiect "Gwarchod ein Henoed Gyda'n Gilydd" i gael ei gylchredeg i'r pwyllgor** | RA |
| S | 8 | **Trosolwg o'r swydd Rhagnodydd Cymdeithasol i gael ei ddosbarthu i'r pwyllgor** | JO |
| T | 8 | **Y wybodaeth ddiweddaraf o ran yr ymarfer mapio Profiadau Gwrthwynebus Plentyndod i'w darparu i gyfarfod nesaf y PCRh** | Is-grŵp Pobl Ifanc |
| U | 9 | **Costau cyfieithu i fod ar yr agenda ar gyfer cyfarfod nesaf yr Arweinwyr Cefnogi Pobl** | AL |